# Dyfarniad Rheoleiddio

## Mehefin 2026

## Adra (Tai) Cyfyngedig – L152

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |

**Y Broses Asesu**

Cynhaliwyd yr asesiad o Adra (Tai) Cyfyngedig yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygu hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, cynllun gwella cydymffurfio a dogfennau cysylltiedig, adolygwyd amrywiaeth aelodaeth y Bwrdd, boddhad tenantiaid, gweithredu ar adborth tenantiaid, goruchwylio'r is-gwmni, a'r ffordd mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd â'r strategaeth rheoli asedau'n fwy manwl.

Ynghyd ag adolygiad o ddogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweliadau â'r Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd y Bwrdd, a'r Cyfarwyddwr Adnoddau, arsylwyd ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a mynychodd y tîm rheoleiddio ddigwyddiad ymgysylltu â phreswylwyr. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o ganlyniad i gysylltu â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn rheolaidd.

Bydd Adra (Tai) Cyfyngedig yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

**Adra: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **7,325** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£51.7m** |
| **Sicrwydd Llog** | **232%** |
| **Gerio** | **50%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT)** |
| **Lleoliad** | **Gogledd Cymru** |

*Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi dealltwriaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar:

- Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN digidol 978-1-83715-921-5
Hawlfraint y Goron 2026